# Trosolwg o'r Wers: Dychmygwch Hwn

| | | |
|---|---|---|
| **MAES:** | Diogelwch | Hyd y Wers:<br>Yn amrywio hyd at 60 munud, drwy gytundeb â staff y ganolfan, yn dibynnu ar a gaiff y wers ei chyflwyno yn ei chrynswth, ynteu fesul rhan ac ar sut y bydd y disgyblion yn ymateb. |
| **CYFNOD ALLWEDDOL** | CA2U | |
| **GWERS:** | Dychmygwch Hwn!<br>(Bod yn Ddiogel wrth Ddefnyddio Ffôn Symudol) | |

## Y NOD

Gallu defnyddio ffôn symudol yn ddiogel a gwybod beth yw camddefnyddio ffôn symudol.

## AMCANION FFRAMWAITH ABCh 2008

- Ffurfio barn bersonol a gwneud penderfyniadau gwybodus S (DM)
- Defnyddio TGCh mewn modd diogel gyda chymorth ac arweiniad (TGCh)
- Defnyddio technegau priodol ar gyfer myfyrdod personol S(DM)
- Deall pwysigrwydd diogelwch personol Y (IacE)
- Deall bod gweithredoedd personol yn esgor ar ganlyniadau Y (MacY)

## LLYTHRENNEDD AR DRAWS Y CWRICWLWM

Mae'r wers hon yn cynnwys yr agweddau a ganlyn o'r fframwaith llythrennedd ac elfennau o'r fframwaith rhifedd

- Siarad – Ll(Ll) si
- Gwrando – Ll(Ll)G
- Cydweithredu a thrafod Ll(Ll) C a th
- Ymateb a dadansoddi – Ll(D)y&d

## AMCANION Y WERS

- Gwybod sut mae defnyddio ffôn symudol mewn ffordd gadarnhaol.
- Ystyried canlyniadau camddefnyddio ffôn symudol.
- Gwybod beth i'w wneud os aiff rhywbeth o'i le.

## GEIRIAU ALLWEDDOL

trolio, rhwydweithio cymdeithasol, postio, geotagio

## ADNODDAU

- PowerPoint 'Dychmygwch Hwn'
- Cardiau negyddol, cadarnhaol, niwtral
- Taflen atebion Torri'r Cod
- Cardiau grwpiau clwstwr
- Taflenni tywys: 1) Taflen ateb grwpiau clwstwr.doc 2) Taflen sylwadau niwtral
- DVD Dychmygwch Hwn
- Cardiau cymeriadau (set o 3)
- 3 Phoster i'r ysgol – Diffodd geotagio

## GWEITHGAREDDAU

### CYFLWYNIAD

- Sicrhau eich bod yn esbonio'r cysylltiad â'r wers flaenorol.
- Cytuno ar y Rheolau Euraid.
- Esbonio'n glir beth yw'r cytundeb dosbarth a chyfrinachedd.
- Esbonio – dangos yr amcanion dysgu

### PRIF WEITHGAREDDAU

- Gweithgarwch Cychwyn Cyflym Dewisol
- Esbonio / dangos y geiriau allweddol
- Holi faint sy'n berchen ar ffôn symudol a'u holi ynglŷn â sut y byddant yn defnyddio'u ffôn yn bennaf.
- Bydd y disgyblion yn ffurfio grwpiau clwstwr i wneud gweithgaredd dosbarth sef categoreiddio defnyddio ffôn symudol mewn ffordd gadarnhaol, negyddol neu niwtral.
- Y dosbarth yn gwylio'r DVD 'Dychmygwch Hwn' ac wedyn, mewn grwpiau, yn defnyddio'r cwestiynau sydd ar y daflen waith i drafod.
- Nodi sut mae osgoi camddefnyddio ffonau symudol
- Y disgyblion yn rhestru'r bobl y gallant sôn wrthynt os bydd rhywbeth yn mynd o'i le.

### ADOLYGU/DOSBARTH CYFAN

- Sôn wrth y disgyblion am ganlyniadau ymarferol a chyfreithiol camddefnyddio ffonau symudol gan gyfeirio'n benodol at ffotograffau a rhoi 4 cyngor call ynglŷn â sut mae cadw'n ddiogel a chadw'r gyfraith.
- Poster i'r ysgol – Diffodd geotagio ar ffôn - set o 3

## AWGRYM – GWEITHGAREDDAU DILYNOL I'R ATHRO

I gael gwybodaeth fanylach ac adnoddau ar gyfer amrywiaeth o wersi a gweithgareddau dilynol, gweler adran yr athrawon ar wefan www.schoolbeat.org.